

Capel Annibynnol Cae Bach, Llandrindod – goroesiad prin o'r ddeunawfed ganrif, a ail-fodelwyd yn 1804 ac 1840 (Addoldai Cymru). **Ar y dde:** Hen Dŷ Cwrdd Undodaidd, Trecynon yn 2023 ar ôl adfer y ffasâd mewn morter calch (Robin Forster).

# Diogelu'r capeli Cymreig

**Rob Scourfield** yn disgrifio'r heriau o geisio diogelu'r enghreifftiau gorau o hen addoldai anghydffurfiol Cymru.



Sefydlwyd Addoldai Cymru, Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru, yn 1999 fel elusen i gymryd perchnogaeth ar ddetholiad o gapeli anghydffurfiol sy'n arwyddocaol yn hanesyddol a/neu'n bensaernïol yng Nghymru. Mae capeli o'r fath wrth galon hunaniaeth ddiwylliannol genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae demograffeg sy'n newid yn golygu bod capeli Cymru – y mae 867 ohonynt wedi'u rhestru – yn cael eu cau ar gyfradd syfrdanol. O fewn y pum mlynedd nesaf, mae'n amheus a fydd mwy na 5% o'r capeli rhestredig yng Nghymru yn dal i gael eu defnyddio fel y'u bwriadwyd yn wreiddiol fel mannau addoliad. Cefnogir Addoldai Cymru gan Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Pan fu i ni ddechrau ar y gwaith, awgrymwyd ein bod yn ymgymryd â 100 o gapeli. Ar ôl 25 mlynedd, dim ond un ar ddeg sydd gennym, gyda dau gaffaeliad arall ar y gweill.

Yn anffodus, mae gwahaniaeth amlwg rhwng y modd y caiff eglwysi Anglicanaidd eu gwerthfawrogi, o'i gymharu â chapeli Cymreig. Mae llawer o eglwysi plwyf yn Lloegr yn cael eu gwerthfawrogi'n frwd gan eu cymunedau presennol am eu pwysigrwydd o ran treftadaeth; maent yn tueddu i ddenu cyllid allanol a chymynroddion. Mewn sawl ardal yng nghefn gwlad Lloegr, mae diddordeb a chefnogaeth leol yn hanfodol er mwyn cadw'r drysau ar agor. Yng Nghymru, mae'r math yma o gefnogaeth yn brin, yn rhannol oherwydd y nifer fawr o gapeli ledled y wlad, ond hefyd oherwydd bod Cymru'n dlotach fel cenedl. Felly, mae capeli sydd wedi cau yn aml yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy fel cartrefi gwyliau posibl nag fel adeiladau sy'n deilwng o gael eu gwarchod. Mae tu mewn y capeli hefyd yn fwy anodd i'w gwarchod nag eglwysi; yn eu hanfod, awditoria yw'r rhain sy'n llawn o waith coed – seddi, galerïau a'r pulpud hollbwysig – mae'r rhain i gyd yn dueddol o ddadfeilio ac, os cyhoeddir bod capel yn ddiddefnydd, yn cael eu llosgi'n fwriadol weithiau.

Mae'r cynnydd o ran cymryd perchnogaeth ar gapeli wedi bod yn araf. Am sawl rheswm, cymerodd bedair blynedd i'r Ymddiriedolaeth ymgymryd â'i chapel cyntaf, Libanus, yn Llanwrda, Sir Gaerfyrddin. I ddechrau, mae sawl enwad yng Nghymru, pob un ohonynt yn gweithredu ei system ei hun o waredu capeli, gyda'r refeniw o werthu'n bwysig ar gyfer cynnal buddsoddiadau a chenhadaeth.

Yn ail, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth incwm gwarantedig. Mae cymorth refeniw Cadw yn hanfodol ond mae'n cael ei ddyfarnu'n flynyddol ac nid yw'n ddigon o ran cynnal staff, gyda'r ddwy swydd sydd gennym yn rhan-amser yn unig.

Yn drydydd, mae Cymru'n wlad fawr sy'n wledig yn bennaf ac mae hynny'n golygu bod angen swyddfa barhaol ar yr Ymddiriedolaeth yn y gogledd yn ogystal â'r de. Ac, yn olaf, ym mhob achos bron, ni all capeli sydd wedi'u hadfer gynnal eu hunain yn ariannol. Mae





Capeli Carmel ac Ainon, er enghraifft, mewn lleoliadau anghysbell lle nad oes fawr o le parcio, felly mae refeniw wedi'i gyfyngu i elw o wasanaethau achlysurol neu ymwelwyr sy'n mynd heibio.

Ar ben arall y raddfa o'r capeli gwledig mae Bethania, Maesteg, capel mawr Edwardaidd Gradd II* o safon uchel, sef yr adeilad gorau sydd wedi goroesi o waith William Beddoe Rees. Rhaid i unrhyw fwriad i ailddefnyddio'r capel gystadlu â mwynderau presennol y dref sydd eisoes â lleoliadau ar gyfer cyngherddau, ymarferion côr a digwyddiadau cyhoeddus. Pan wnaeth yr Ymddiriedolaeth gais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, cynghorwyd ni i gael gwared ar y seddi er mwyn caniatáu hyblygrwydd o ran defnydd.

Nid yn unig y mae hynny'n gwrthdaro â'n hegwyddorion cadwraeth ond nid yw cael gwared â'r seddi yn gwarantu y caiff yr adeilad ei ailddefnyddio, rhywbeth y mae llawer o eglwysi wedi'i ganfod i'w cost. Ar ôl dau gais aflwyddiannus arall, y cwbl yr ydym wedi llwyddo i'w wneud yw gosod prif do newydd a chael gwared â'r pydredd sych.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, rydym wedi cael llawer o lwyddiannau, ac mae naw o'r un-ar-ddeg o gapeli sydd yn ein meddiant mewn cyflwr da erbyn hyn, diolch i'n staff ymroddedig sydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid allanol o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r rhan fwyaf o'n capeli bellach ar agor i'r cyhoedd drwy ddefnyddio blychau cadw allweddi'n ddiogel a chymorth gan gymdogion. Un enghraifft o hyn yw Beildhu yn Sir Frycheiniog, lle mae'r capel sydd wedi'i adfer yn ategu'r dafarn leol, y mae hithau hefyd erbyn hyn yn ased cymunedol. Ym Mheniel Tremadog – un o ddim ond pum capel rhestredig Gradd I yng Nghymru – mae'r capel a adferwyd wedi denu diddordeb cymunedol cryf.

Mae ymdrechion i sicrhau ffrwd refeniw fwy sefydledig wedi bod yn aflwyddiannus, oherwydd y diffyg diddordeb gwleidyddol mewn treftadaeth yn gyffredinol yng Nghymru, lle mae hyd yn oed Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn brwydro i oroesi. Mae arian cyhoeddus ar gyfer cadwraeth treftadaeth dan bwysau ar hyn o bryd, ac mae cyllid elusennol yn targedu materion iechyd a lles yn gynyddol. Mae angen mwy o ymddiriedolwyr ar yr Ymddiriedolaeth ar fyrder, yn enwedig gydag arbenigedd mewn hyrwyddo yn y cyfryngau a dod o hyd i gyllid. ●

Mae'r Ymddiriedolaeth newydd gael toriad o 5% yn ei chyllid refeniw, sy'n ergyd ddifrifol, ond rydym yn ddiolchgar i Cadw am ein gwarchod rhag y gostyngiad ehangach o 10% i gyllid treftadaeth yng Nghymru. Rydyn ni nawr yn wynebu'r her driphlyg o gynyddu ein cydnerthedd ariannol, achub mwy o gapeli tra bod amser o hyd, a pharhau i godi ein proffil cyhoeddus. **welshchapels.wales**

Rob Scourfield yw cyn gadeirydd Addoldai Cymru/Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru a'r awdur sy'n diwygio *The Buildings of Wales: Powys* (2014).